Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Caerffili

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# RHAGLEN GRANT CYFALAF GOFAL PLANT A BLYNYDDOEDD CYNNAR

## CYNLLUN GRANTIAU BACH 2023-24

**Telerau ac Amodau Craidd y Grant Cyfalaf Bach**

**Rhoddwr y grant – Blynyddoedd Cynnar CBSC**

**Derbynnydd y grant – Darparwr Gofal Plant**

**Dyfarnu'r grant**

1. Bydd derbynnydd y grant yn sicrhau ei fod yn cadw at y Telerau ac Amodau hyn ar gyfer derbyn grant. Mae'r telerau ac amodau hyn yn berthnasol i'r cyllid a ddarperir o **Gynllun Grantiau Bach 2023/24** yn unig.

2. Bydd disgwyl i bob darparwr sy'n derbyn arian o'r Cynllun Grantiau Bach dderbyn y cynnig yn ffurfiol yn ysgrifenedig (e-bost yn dderbyniol), rhaid iddynt hefyd lofnodi'r telerau ac amodau sydd ynghlwm wrth y grant.

**Defnydd o'r grant a chymhwysedd ar gyfer y grant**

3. Bydd unrhyw gymorth grant a ddyfernir yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a gymeradwywyd yn y llythyr sy'n cynnig cymorth grant yn unig. Gellir addasu'r dibenion cymeradwy hynny drwy gytundeb ysgrifenedig rhwng rhoddwr y grant a derbynnydd y grant. Ystyrir bod pob gwariant yn anghymwys oni bai ei fod yn codi o'r dibenion a gymeradwywyd ac yn gyson â holl delerau ac amodau'r grant.

4. Gellir trin unrhyw gamliwio, gan gynnwys cuddio neu ddal gwybodaeth berthnasol yn ôl, gan dderbynnydd y grant yn ei gais am gymorth grant ac am gyfnod dilynol y cyfnod dyfarnu grant fel methiant i gydymffurfio â'r telerau ac amodau hyn.

**Cyfnod y dyfarniad**

5. Dyfernir y grant i'w ddefnyddio yn ystod cyfnod o'r flwyddyn ariannol gyfredol a rhaid ei wario erbyn 31 Mawrth 2024. Bydd unrhyw gyfran o'r grant heb ei gwario erbyn y dyddiad hwn yn ad-daladwy i'r Cyngor. Os bydd angen cyllid i groesi'r flwyddyn ariannol, bydd angen i chi nodi'n glir y swm i'w wario erbyn 31 Mawrth 2024 a'r swm sydd ei angen ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, gyda chynllun ar gyfer sut y byddwch yn cwblhau unrhyw waith sy'n weddill os na fydd cyllid cyfalaf grant bach pellach ar gael. Er ein bod yn rhagweld grantiau cyfalaf bach

pellach yn y blynyddoedd ariannol i ddod tan fis Mawrth 2025, ni allwn warantu hyn ac, felly, bydd hyn ar fenter y darparwr gofal plant.

6. Mae rhoddwr y grant yn cadw'r hawl i derfynu Dyfarniad y Cynllun Grantiau Bach ar ôl rhoi hysbysiad ysgrifenedig i dderbynnydd y grant. Byddai rhybudd terfynu rhesymol yn cael ei roi a byddai rhoddwr y grant yn ystyried rhwymedigaethau cytundebol derbynnydd y grant. Os bydd y Dyfarniad Grant yn cael ei derfynu, bydd yn ofynnol i dderbynnydd y grant ad-dalu unrhyw grant nad yw wedi'i wario at ddibenion cymeradwy ar y dyddiad terfynu.

**Rheoli grantiau a threfniadau monitro**

7. Bydd derbynnydd y grant yn enwebu person a enwir i weithredu fel arweinydd ar faterion cynllun grantiau. Yn achos Gwarchodwr Plant, y Gwarchodwr Plant fydd hwn. Bydd derbynnydd y grant yn hysbysu rhoddwr y grant ar unwaith am unrhyw newid yn y person hwnnw a enwir. Bydd rhoddwr y grant, yn yr un modd, yn hysbysu derbynnydd y grant am unrhyw newid yn ei gyswllt a enwir.

8. Bydd derbynnydd y grant yn monitro cynnydd y cymorth grant a ddyfarnwyd ac yn sicrhau bod y grant yn cael ei wario fel y cytunwyd, bod rheolaethau ariannol yn ddigonol, a bod derbynnydd y grant yn rheoli’r cymorth grant a ddyfarnwyd yn foddhaol ac yn cydymffurfio â’r telerau ac amodau hyn.

9. Bydd derbynnydd y grant yn cyflwyno i roddwr y grant, o fewn yr amser penodedig ar ôl derbyn y dyfarniad cymorth grant, adroddiad (Adroddiad Monitro Grant – a elwir ‘yr Adroddiad’ o hyn ymlaen) yn dangos i ba raddau y bu cynnydd o ran yr amcanion y cytunwyd arnynt a nodir yn y llythyr cynnig grant. Rhaid i'r Adroddiad gael ei lofnodi gan yr arweinydd/gwarchodwr plant fel cadarnhad o'r ffaith bod yr Adroddiad yn gynrychioliad cywir o gynnydd.

10. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o wariant gyda'r Adroddiad, ar ffurf anfonebau taledig, derbynebau, cyfriflenni banc, ac ati. Ni dderbynnir derbynebau mewn llawysgrifen. Rhaid i bob derbynneb ddangos dyddiad, rhif yr anfoneb ac enw'r cwmni gyda rhif cofrestru'r cwmni, disgrifiad llawn o'r eitemau a swm llawn y gwariant.

11. Rhaid ceisio cymeradwyaeth ymlaen llaw gan roddwr y grant ar gyfer unrhyw newidiadau sylweddol i'r proffiliau gwariant cysylltiedig y cytunwyd arnynt rhwng derbynnydd y grant a rhoddwr y grant. Newid sylweddol fyddai ychwanegedd arfaethedig, eitem gyfalaf amgen neu derfynu gweithgaredd cysylltiedig â grant.

**Gwybodaeth ychwanegol**

12. Rhaid i dderbynnydd y grant ddarparu i roddwr y grant unrhyw wybodaeth arall am ei weithgareddau neu weithgareddau arfaethedig ac am ei ddefnydd neu ddefnydd arfaethedig o'r cyfan neu unrhyw ran o gyllid grant, ag y bydd rhoddwr y grant yn gofyn amdani o bryd i'w gilydd. Bydd gan roddwr y grant yr hawl i ddefnyddio hyn, a’r holl wybodaeth a roddir iddo gan dderbynnydd y grant mewn perthynas â’r cymorth grant, fel y gwêl yn dda. Bydd gwybodaeth o'r fath, os gofynnir amdani gan roddwr y grant, yn cael ei hardystio wedi'i chymeradwyo gan

arweinydd neu swyddog arall o sefydliad derbynnydd y grant y gall rhoddwr y grant ei ystyried yn briodol o dan yr holl amgylchiadau.

**Darpariaethau Cysylltiedig â Grant Cyfalaf**

13. Mae 'cyfalaf' yn golygu gwariant ar brynu neu greu asedau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio am gyfnod o flwyddyn o leiaf. Mae'n cynnwys prynu adeiladau, offer, a thir.

**Yswiriant**

14. Bydd derbynnydd y grant yn sicrhau ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i yswirio rhag unrhyw risgiau a all godi mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo, neu unrhyw weithgaredd yr ymgymerir ag ef sy'n derbyn cymorth grant yn gyfan gwbl neu'n rhannol o dan y cynllun. Mae hyn yn cynnwys unrhyw golled neu anaf personol i staff sy'n derbyn cymorth grant sy'n ymgymryd â'r gweithgareddau hynny. Bydd rhoddwr y grant yn cadw'r hawl i fynnu bod derbynnydd y grant yn cyflwyno unrhyw ddogfennau perthnasol sy'n ymwneud â pholisïau yswiriant er mwyn eu harchwilio. Nid yw rhoddwr y grant yn atebol mewn unrhyw ffordd am unrhyw eiddo neu weithgareddau y mae wedi darparu cymorth grant yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar eu cyfer; dylai'r cyfrifoldeb am unrhyw gynlluniau wrth gefn o'r fath fod yn gyfan gwbl gyda derbynnydd y grant, a ddylai fod wedi'i yswirio rhag pob posibilrwydd drwy godi polisïau yswiriant boddhaol.

**Cyhoeddusrwydd**

15. Bydd derbynnydd y grant yn cydnabod, trwy gynnwys geiriad priodol ar ddatganiadau i'r wasg a brandio (ar gyhoeddusrwydd, deunyddiau cyfathrebu ac arwyddion), fod y cyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a rhaid cydnabod hyn mewn unrhyw ddeunydd darllen a gohebiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, megis cylchlythyrau, a dylid defnyddio brandio perthnasol Llywodraeth Cymru.

**Dibenion Pleidiau Gwleidyddol**

16. Bydd derbynnydd y grant yn sicrhau na chaiff unrhyw ran o'r grant ei defnyddio at ddibenion gwleidyddol pleidiol, ac ni fydd unrhyw agwedd ar y gweithgareddau cymorth grant yn wleidyddol pleidiol o ran bwriad, defnydd na chyflwyniad.

**Cyfle Cyfartal**

17. Bydd derbynnydd y grant bob amser yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Y Gymraeg

### Sefydliadau gwirfoddol ac anstatudol

18. Bydd derbynnydd y grant yn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ieithyddol y gymuned neu'r cwsmeriaid y mae'r gwasanaeth, prosiect neu weithgaredd i'w ddarparu ar eu cyfer. Yn benodol, bydd derbynnydd y grant yn sicrhau'r canlynol:
    - adlewyrchir materion yn ymwneud â'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd craidd sy'n berthnasol i'r grant; a
    - bod y gwasanaethau a ddarperir o dan y grant yn cael eu darparu'n ddwyieithog, lle bo'n berthnasol, ac yn bodloni'r gofynion perthnasol o dan Ddeddf Safonau'r Gymraeg 2018.

### Cyfyngiadau ar atebolrwydd rhoddwr y grant

19. Ni fydd derbynnydd y grant (a bydd yn sicrhau nad yw unrhyw aelod o'i sefydliad) yn cynrychioli'r sefydliad yn y fath fodd, nac yn dweud nac yn gwneud unrhyw beth a allai arwain personau i gredu bod derbynnydd y grant yn asiant i roddwr y grant neu fod rhoddwr y grant yn gyfrifol am unrhyw atebolrwydd derbynnydd y grant. Ni fydd dim yn nhelerau ac amodau'r grant yn gosod unrhyw atebolrwydd ar roddwr y grant mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a achosir gan dderbynnydd y grant i unrhyw berson neu endid arall.

### Amrywiad yn y grant

20. Oni bai ei fod wedi'i gynnwys yn y gymeradwyaeth gychwynnol, ni fydd lefel y grant a ddyfernir yn cael ei haddasu i gymryd i ystyriaeth newidiadau mewn tâl a phrisiau yn ystod oes y cynllun/prosiect cymeradwy. Pan fo prisiau'n cael eu gostwng, rhaid hysbysu rhoddwr y grant a rhaid cymeradwyo unrhyw newidiadau i'r cais am grant cyn prynu.

### Caffael

21. Rhaid i dderbynnydd y grant gydymffurfio â'i drefniadau ei hun ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau. Bydd rhoddwr y grant yn disgwyl i dderbynnydd y grant gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r gwerth gorau am arian o ran cyllid grant drwy gaffael nwyddau a gwasanaethau mewn cystadleuaeth agored.

22. Mae derbynnydd y grant yn cytuno ac yn deall, os yw'r lleoliad ar safle y Cyngor/ysgol, fod yn rhaid i'r gwaith gael ei gwblhau o dan gyfarwyddyd adran berthnasol yr awdurdod lleol ac, felly, rhaid ceisio arweiniad a chaniatâd cyn gwneud cais.

### Cynnal a chadw cofnodion

23. Bydd derbynnydd y grant yn sicrhau ei fod yn cadw'r holl gofnodion cyfrifon a'r cyfryw ddogfennau neu gofnodion eraill sy'n ymwneud â'r cynllun/prosiect. Bydd cofnodion cyfrifon a chofnodion ariannol cysylltiedig yn cael eu cadw am gyfnod o 10 mlynedd o ddyddiad diwedd y cynllun grant. Bydd dogfennau a chofnodion eraill yn cael eu cadw am 6 blynedd.

**Tanwariant yn y grant**

24. Bydd derbynnydd y grant yn hysbysu rhoddwr y grant cyn gynted ag y daw'n amlwg iddo fod tanwariant yn y grant yn debygol o godi neu wedi codi. Gall rhoddwr y grant, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr ac yn unol â'r pwerau y telir y grant oddi tanynt, gymeradwyo defnyddio'r tanwariant at ddibenion buddiol eraill. Mae cymeradwyaeth o'r fath yn arbennig o debygol o gael ei rhoi os yw'r tanwariant yn codi oherwydd gwell effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd wrth reoli adnoddau, ond nid yw'n debygol y rhoddir cymeradwyaeth os yw hynny oherwydd oedi cyn dechrau gweithgaredd â chymorth grant.

**Adennill/Adfachu**

25. Mae rhoddwr y grant yn cadw'r hawl, ar unrhyw adeg, i adennill y grant, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i'r graddau nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddiben/ddibenion cymwys neu os yw rhoddwr y grant o'r farn nad yw unrhyw delerau neu amodau eraill sydd ynghlwm wrth y grant yn cael eu cyflawni.

26. Os na chaiff y grant ei wario ar gyfer y diben/dibenion cymwys yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, bydd y swm heb ei wario yn ad-daladwy i roddwr y grant yn ystod neu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno a/neu gellir ei ystyried wrth bennu swm unrhyw grant cymorth i'w dalu mewn unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol.

27. Wrth dderbyn y cynnig hwn o gyllid, mae'r ymgeisydd yn cytuno i ddarparu lleoedd Gofal Plant am o leiaf 5 mlynedd o ddyddiad talu'r cyllid grant.

28. Os bydd derbynnydd y grant, o fewn cyfnod o 5 mlynedd i dderbyn arian grant, yn cau neu'n atal dros dro gyflenwi'r ddarpariaeth a/neu'n lleihau nifer y lleoedd cofrestredig, bydd gan roddwr y grant yr hawl i adennill y cyfan neu ran o swm y grant a ddyfarnwyd.

29. Os bydd yr ymgeisydd yn <u>penderfynu peidio</u> â derbyn plant sy'n cael eu hariannu drwy raglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, bydd yn agored i ad-dalu'r cyfan, neu ran o'r cyllid a dalwyd. Ni fydd hyn yn berthnasol os gall yr ymgeisydd ddangos yn glir y byddai'n croesawu plant o dan y rhaglenni hyn ond nad oes capasiti.

30. Os caiff derbynnydd y grant ei ddirwyn i ben neu os bydd yn ymddiddymu (gan gynnwys bod yn ddarostyngedig i unrhyw orchymyn gweinyddu), yn mynd i law'r derbynnydd, yn mynd yn fethiant, yn ymrwymo i unrhyw gyfaddawd neu drefniant arall o ran ei ddyledion gyda'i gredydwyr, neu'n debygol, ym marn rhoddwr y grant, o fethu â thalu dim o'i ddyledion, yna, os digwydd unrhyw un o'r rhain, bydd y grant yn cael ei ad-dalu i'r Cyngor ar unwaith ac ni fydd unrhyw arian pellach yn ddyledus neu'n daladwy gan roddwr y grant i dderbynnydd y grant nac i unrhyw un sy'n gweithredu drosto neu ar ei ran neu yn ei enw. Bernir bod unrhyw gyfeiriadau at swm y grant a dalwyd neu sydd i'w dalu i dderbynnydd y grant yn golygu ac yn gyfyngedig i'r swm o arian a dalwyd mewn gwirionedd i

dderbynnydd y grant gan roddwr y grant ar yr adeg y mae unrhyw un o'r digwyddiadau y cyfeirir atynt uchod yn digwydd.

**Mynediad**

31. Bydd derbynnydd y grant, yn ddi-dâl, yn caniatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion rhoddwr y grant, ar unrhyw adeg resymol, ymweld â'i safle a/neu archwilio unrhyw un neu ragor o'i weithgareddau a/neu archwilio a gwneud copïau o gofnodion cyfrifon derbynnydd y grant a dogfennau neu gofnodion eraill sydd, ym marn y swyddog, yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r defnydd o'r grant gan dderbynnydd y grant. Mae'r amod hwn heb ymrwymiad ac yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan roddwr y grant, neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant iddo.

**Newid Materol mewn Statws Ariannol**

32. Os daw derbynnydd y grant yn ymwybodol o ddirywiad sylweddol yn ei amgylchiadau ariannol (er enghraifft diffyg yn ei gyfrif incwm a gwariant, gostyngiad sylweddol yng ngwerth ei sylfaen asedau neu broblem llif arian) yn ystod y flwyddyn ariannol, neu yn ystod yr archwiliad o gyfrifon sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol honno, dylai hysbysu rhoddwr y grant ar unwaith. Dylai hefyd hysbysu unrhyw gyrff eraill sy'n darparu arian cyhoeddus i dderbynnydd y grant. Os bydd derbynnydd y grant yn methu â hysbysu cyrff cyllido eraill o'r fath, mae rhoddwr y grant yn cadw'r hawl i gyfleu'r wybodaeth i Lywodraeth Cymru er mwyn diogelu buddiannau'r trethdalwyr.

**Torri Telerau ac Amodau**

33. Os bydd derbynnydd y grant yn torri unrhyw un neu ragor o'r telerau ac amodau uchod, neu'r rhai a nodir yn y llythyr sy'n cynnig y grant, bydd gan roddwr y grant yr hawl ar unwaith i adennill y cyfan neu unrhyw grant a dalwyd eisoes ac i atal, boed dros dro neu'n barhaol, unrhyw grant sydd heb ei dalu eto; ac eithrio pan fydd rhoddwr y grant o'r farn bod methiant derbynnydd y grant yn fethiant y gellir ei gywiro i'w foddhad, yna, cyn i roddwr y grant adennill unrhyw grant, bydd yn cyflwyno yn gyntaf hysbysiad ysgrifenedig i dderbynnydd y grant gan nodi natur y methiant a'r camau sy'n ofynnol gan dderbynnydd y grant i'w unioni, gan gynnwys yr amser a ganiateir i unioni'r methiant. Bydd methiant ar ran derbynnydd y grant i gydymffurfio â hysbysiad o'r fath yn rhoi'r hawl i roddwr y grant adennill arian y grant oddi ar dderbynnydd y grant.

**Datganiad gan dderbynnydd y grant:**

Rydw i, Cliciwch neu daro yma i deipio testun.,

ar ran Cliciwch neu daro yma i deipio testun. (enw'r lleoliad)

wedi darllen, deall a chytuno i gadw at y Telerau ac Amodau grant uchod.

Llofnod: Cliciwch neu daro yma i deipio testun.

Dyddiad: Cliciwch neu daro yma i deipio dyddiad.

**Llofnod y Cyngor:**

Rydw i, Cliciwch neu daro yma i deipio testun., ar gyfer ac ar ran

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Cyfeiriad: Tŷ Penallta
Parc Busnes Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7PG

Llofnod: Cliciwch neu daro yma i deipio testun.

Dyddiad: Cliciwch neu daro yma i deipio dyddiad.